

Galw am wybodaeth – cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020–21

Mae pwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw am wybodaeth i'w cynorthwyo â'r gwaith o graffu ar gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020–21. Rydym yn awyddus i wybod rhagor am y disgwyliadau o ran cyllideb 2020–21, gan gynnwys parodrwydd ariannol ar gyfer blwyddyn 2020–21 ac effaith cyllideb 2019–20.

Caiff y gyllideb ddrafft ei chyhoeddi ym mis Hydref fel arfer. Eleni, fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y byddai'n cynnal Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a gaiff ei gwblhau'r un pryd â Chyllideb y DU. Felly, ar hyn o bryd nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw wybodaeth ynghylch faint o gyllid a gaiff gan Lywodraeth y DU ar gyfer 2020–21 i seilio ei chyllideb arni. Mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd wedi [cyhoeddi](#) bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r Cyllidebau amlinellol a manwl drafft gyda'i gilydd ar 10 Rhagfyr 2019, a chyhoeddi'r Gyllideb derfynol ar 3 Mawrth 2020.

Bydd y [Pwyllgor Cyllid](#) yn edrych ar gyllideb Llywodraeth Cymru o safbwynt strategol, cwmpasog. Byddwn hefyd yn gweithio gyda phwyllgorau eraill y Cynulliad i sicrhau bod cynigion ar gyfer adrannau penodol, neu bortffolios y Gweinidogion, yn cael eu hystyried yn fanwl. Bydd pob pwyllgor yn cynnal ei sesiynau tystiolaeth penodol ei hun er mwyn archwilio'r agweddau hynny ar y gyllideb sy'n rhan o'u cylchoedd gwaith hwy. Mae rhagor o fanylion am Bwyllgorau'r Cynulliad a phroses y gyllideb ar gael yn [Atodiad 1](#).

Yn y papur hwn, rydym wedi cynnwys cwestiynau penodol yn [Atodiad 2](#). Gallwch ateb y rhain i gyd, neu rai ohonynt, neu roi'ch barn gyffredinol ar y gyllideb ddrafft.

Ar 27 Mehefin 2019, cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid ddigwyddiad rhanddeiliaid yn Aberystwyth a nododd y rhanddeiliaid nifer o feysydd yr hoffent i'r gwaith craffu ar y gyllideb eleni ganolbwyntio arnynt. Ceir crynodeb o'r cyfarfod [yma](#).

Datgelu gwybodaeth

Mae polisi'r Cynulliad ynghylch datgelu gwybodaeth i'w weld [yma](#). Gofalwch eich bod yn ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor. Neu, mae copi caled o'r polisi hwn i'w gael drwy gysylltu â'r Clerc, Bethan Davies (0300 200 6372 seneddcyllid@cynulliad.cymru).

Rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor

Gwahoddir pawb sydd â diddordeb i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i Glerc y Pwyllgor Cyllid, erbyn dydd **Mercher, 25 Medi 2019**. Os ydych yn awyddus i gyfrannu ond yn pryderu na fyddwch yn gallu cyflwyno'ch tystiolaeth erbyn y dyddiad cau, cysylltwch â Chlerc y Pwyllgor ar 029 2089 8120.

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddwy iaith swyddogol, sef Cymraeg a Saesneg. Yn unol â Chynllun Ieithoedd Swyddogol y Cynulliad, mae'r Pwyllgor yn gofyn i ddogfennau neu ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau gael eu cyflwyno'n ddwyieithos os bwriedir eu cyhoeddi neu eu defnyddio yn nhrefodion y Cynulliad Cenedlaethol. Os na chaiff dogfennau neu ymatebion ysgrifenedig eu cyflwyno'n ddwyieithog, byddwn yn eu cyhoeddi yn yr iaith y cawsant eu cyflwyno, gan ddweud eu bod wedi dod i law yn yr iaith honno'n unig.

Rydym yn disgwyl i sefydliadau eraill weithredu eu safonau neu eu cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol.

Yn gywir



Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English

Gwybodaeth gefndir

Pwy ydym ni?

Mae'r Pwyllgor yn un o bwyllgorau trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n cynnwys wyth Aelod o bob un o'r pedair plaid wleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad.

Nid yw'r Pwyllgor yn rhan o Lywodraeth Cymru. Yn hytrach, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am adrodd ar gynigion a osodwyd gerbron y Cynulliad gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â defnyddio adnoddau.

Pwy yw'r Pwyllgorau eraill sy'n ymwneud â chraffu ar y gyllideb?

Y Pwyllgorau eraill sy'n ymwneud â chraffu ar y gyllideb yw:

- Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
- Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
- Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
- Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
- Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
- Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
- Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Beth yw cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru?

Rhaid i gynigion y gyllideb ddrafft gynnwys manylion yr adnoddau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu defnyddio yn ystod y flwyddyn ariannol ddilynol a ffigurau dangosol ar gyfer y ddwy flynedd ariannol wedyn. Yn fwy penodol, dylai nodi:

- faint o adnoddau ac arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru y bydd Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, Swyddfa Archwilio Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn eu defnyddio.
- sut y caiff cynigion gwariant eu hariannu, gan gynnwys cynlluniau trethu a benthyca.
- yr incwm y bydd y sefydliadau hynny'n ei gadw (yn hytrach nag yn ei ildio i Gronfa Gyfunol Cymru).

Disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru yn rhyddhau cyllideb ddrafft amlinellol gychwynnol yn nodi cynlluniau gwariant a chyllido strategol, lefel uchel a chyllideb ddrafft fanylach dair wythnos yn ddiweddarach.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn paratoi dogfen naratif sy'n dangos y dyraniadau o fewn adrannau, sut y mae'r cynigion yn cyd-fynd â blaenoriaethau a'r canlyniadau dymunol. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn paratoi rhagolygon o drethiant, benthyciadau a dyledion.

Pam nad ydym yn cynnal yr ymgynghoriad hwn ar ôl i gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru gael eu cyhoeddi?

Bydd rhanddeiliaid sy'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn dal yn cael darparu gwybodaeth a thystiolaeth, mynegi pryderon a chynnig awgrymiadau i bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch meysydd craffu posibl ar ôl i gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru gael eu cyhoeddi.

Ar ôl i fanylion y gyllideb ddrafft gael eu cyhoeddi, ychydig iawn o amser fydd i randdeiliaid roi gwybod i'r pwyllgorau am feysydd sy'n peri pryder iddynt. Drwy gynnal yr ymgynghoriad hwn nawr, rydym yn gobeithio y bydd gan randdeiliaid fwy o amser i ystyried effeithiau posibl y gyllideb.

Atodiad 2

Cwestiynau'r ymgynghoriad

1. Beth, yn eich barn chi, fu effaith cyllideb 2019–20 Llywodraeth Cymru?
2. Pa ddisgwyliadau sydd gennych o gynigion cyllideb ddrafft 2020–21?
Pa mor barod, yn ariannol, yw'ch sefydliad ar gyfer blwyddyn ariannol 2020–21, a pha mor gadarn yw'ch gallu i gynllunio ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod?
3. Hoffai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar nifer o feysydd penodol wrth graffu ar y gyllideb. A oes gennych chi unrhyw sylwadau penodol ar y meysydd a nodir isod?
 - *Agwedd Llywodraeth Cymru tuag at wariant ataliol, a sut y caiff hyn ei adlewyrchu yn y broses o ddyrannu adnoddau (Gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lleihau'r galw am wasanaethau yn y dyfodol, drwy ymyrryd yn gynnar), yn enwedig o ran ariannu byrddau iechyd lleol a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol*
 - *Cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a thrawsnewid gwasanaethau*
 - *Polisiâu Llywodraeth Cymru i hybu twf economaidd, lleihau tlodi ac anghydraddoldeb rhywiol, a lliniaru diwygiadau lles*
 - *Cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer Brexit a pharodrwydd ar gyfer Brexit*
 - *Sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau trethu a benthycu, yn enwedig o ran Cyfradd Treth Incwm Cymru*
 - *Sut y mae tystiolaeth yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru o ran pennu blaenoriaethau a dyrannu'r gyllideb*
 - *Polisiâu Llywodraeth Cymru i gryfhau'r economi a hyrwyddo arloesedd*
 - *Sut y mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn dylanwadu ar y broses o ddatblygu polisiâu*
 - *Wrth gyhoeddi 'argyfwng hinsawdd', a yw'n amlwg bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymateb i'r her honno a darparu'r adnoddau angenrheidiol*